Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Llanfechell
# Llanfechell
# Amlwch
# Ynys Môn
# LL68 0SA

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/08/2014**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymuned Llanfechell ar gyrion y pentref yng ngogledd Ynys Môn, ac fe'i cynhelir gan awdurdod addysg Ynys Môn. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ddwyieithog ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed. Cymraeg yw prif gyfrwng y dysgu. Daw oddeutu 67% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Derbynnir plant i'r ysgol, yn rhan amser i'r dosbarth meithrin, ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn dair oed, ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed.

Yn ystod yr arolygiad, roedd deuddeg o blant yn y dosbarth meithrin rhan amser a 94 o ddisgyblion amser llawn ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir gan dair o athrawon amser llawn a dair ran amser.

Mae oddeutu 16% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl, sydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae 16% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigurau hyn yn is na ffigwr Cymru.

Mae'r pennaeth wedi bod yn y swydd ers Hydref 2013. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Mai 2008.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymuned Llanfechell yn 2013-2014 yn £3,818. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £9,156 a'r lleiafswm yw £2,901. Mae Ysgol Gymuned Llanfechell yn safle'r 40fed allan o'r 48 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol gwneud cynnydd da;
- lefelau presenoldeb ac ymddygiad yn uchel a bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac awyddus i ddysgu;
- ansawdd yr addysgu a'r asesu yn dda a chymorthyddion yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol;
- staff yn rhoi lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion; a bod
- yr ysgol yn gymuned gynhwysol lle caiff disgyblion eu gwerthfawrogi.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- y tîm rheoli yn darparu arweinyddiaeth gadarn;
- y corff llywodraethol yn effeithiol wrth ddwyn yr ysgol i gyfrif am y safonau a gyflawnir;
- ymwybyddiaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu gan y tîm arweinyddiaeth, sy'n deillio o weithdrefnau hunanarfarnu effeithiol; a bod
- yr ysgol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag ysgolion eraill.

## Argymhellion

A1 Codi safonau mewn ysgrifennu Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau bod disgyblion yn defnyddio’r Gymraeg yn gyson tu mewn a thu allan i’r dosbarthiadau

A3 Cynllunio’n fwy bwriadus er mwyn herio disgyblion uwch eu gallu yn gyson a gwahaniaethu’n effeithiol ar eu cyfer

A4 Cynyddu’r cyfleoedd i ddisgyblion Blwyddyn 2 ddefnyddio’r ardaloedd dysgu allanol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn eu gwersi, ac wrth drafod eu gwaith, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn sawl pwnc. Mae'r rhan fwyaf erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 wedi datblygu eu medrau meddwl yn dda, yn caffael gwybodaeth yn bwrpasol ac yn cymhwyso'r rhain yn llwyddiannus i sefyllfaoedd newydd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o iaith, llythrennedd a'u medrau cyfathrebu yn y Gymraeg. Mae bron pob un yn gwrando'n astud ar eu hathrawon yn ystod gwersi ac yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau addas wrth siarad am eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif yn defnyddio eu Cymraeg yn ddigon cyson mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau gwahanol. Mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dda.

Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen Cymraeg, yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn datblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf o'r plant yn darllen yn ystyrlon a chyda rhuglder a mynegiant priodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod eang o destunau yn rhugl gan ymateb yn ystyrlon i'r testun. Defnyddiant eu medrau darllen Cymraeg a Saesneg yn effeithiol i gywain gwybodaeth a'i chyflwyno mewn modd diddorol mewn sawl pwnc.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau gan ddechrau defnyddio cystrawen yn briodol, a geirfa sy'n gysylltiedig â'r thema. Mae bron pob un yn sillafu geirfa gyfarwydd yn gywir.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn llwyddo i ysgrifennu mewn ystod o ddulliau estynedig yn y ddwy iaith. Defnyddiant eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus ar draws ystod o bynciau. Fodd bynnag, mae cywirdeb lleiafrif o'r disgyblion yn Gymraeg yn eu rhwystro rhag gwneud y cynnydd priodol, ac nid ydynt yn amrywio cystrawennau yn gyson ac yn dewis a dethol geiriau er mwyn creu effaith. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn daclus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau unigol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion o allu uwch bob amser yn cyflawni eu llawn botensial.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Er enghraifft, erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un yn defnyddio unedau safonol i fesur hyd a chynhwysedd yn gywir, yn gosod rhifau hyd at 100 yn eu trefn gywir ac yn cyflwyno gwybodaeth ar

ffurf graff syml yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu medrau rhifedd yn effeithiol mewn meysydd dysgu eraill. Er enghraifft, mae plant Blynyddoedd 1 a 2 yn defnyddio eu gwybodaeth am ffracsiynau syml yn fedrus wrth iddynt baratoi picnic ar gyfer y dosbarth.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd safonau da yn eu medrau rhifedd. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau cyfrifo i ddatrys problemau rhif a geiriol yn hyderus. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u gwaith ar ddefnyddio data, siâp a gofod. Mae rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 yn defnyddio diagramau Venn yn gywir mewn gwaith ar yr ardal leol, a blwyddyn 5 a 6 yn defnyddio eu medrau mesur yn gywir wrth gynllunio dosbarth Fictoraidd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, roedd nifer y disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig, (deilliant 5) mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn y 50% uwch yn 2013 ac yn y 25% uchaf yn 2012. Mewn datblygiad mathemategol, roedd perfformiad yn y 50% is yn 2013, ond yn y 50% uwch yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd perfformiad disgyblion ar ddeilliant 6 yn 2013 yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad mathemategol. Roedd perfformiad mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn 2012 hefyd yn y 25% uchaf, ac yn y 50% uwch mewn datblygiad mathemategol.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2013, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig, (lefel 4) yn gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion yn Gymraeg ac yn 25% isaf yn Saesneg, yn y 50% uwch mewn mathemateg a 25% uchaf mewn gwyddoniaeth. Mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol, roedd perfformiad gan mwyaf yn y 25% uchaf mewn *Cymraeg* a Saesneg, ond yn y 50% is mewn gwyddoniaeth a mathemateg.

Yn 2013, roedd y canran a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 5) yn y 25% uchaf mewn Saesneg, Cymraeg a gwyddoniaeth ac yn y 50% uwch mewn mathemateg. Am y tair blynedd flaenorol ar wahân i Gymraeg a Saesneg yn 2011, roedd perfformiad yn y 50% is neu'r 25% isaf.

**Lles: Da**

Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac yn hyderus i droi at unrhyw aelod o staff am gymorth pan fo angen.

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda. Wrth iddynt gydweithio ar dasgau neu symud o gwmpas yr ysgol, maent yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd a thuag at ymwelwyr. Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy'n cydweithio'n gytûn.

Mae prydlondeb yn dda ac mae presenoldeb wedi gwella'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail cinio am ddim, mae'r ysgol wedi codi o fod yn y 50% is yn 2012 i'r 25% uchaf yn 2013, ar ôl bod yn y 25% isaf yn y tair blynedd cyn hynny.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn ysgwyddo'u cyfrifoldebau yn briodol. Maent yn gwneud penderfyniadau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar les y disgyblion eraill. Er enghraifft, y cyngor ysgol oedd yn gyfrifol am sicrhau a rheoli swm sylweddol o arian i brynu offer chwarae i'r buarth, ac yn yn gyfrifol am redeg y siop ffrwythau. Mae'r ddwy fenter hon wedi cyfrannu'n effeithiol at ddealltwriaeth gadarn y disgyblion am bwysigrwydd cadw'n heini a bwyta'n iach.

Ar draws yr ysgol, mae gan ran fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Trwy ystod o weithgareddau yn yr ysgol, a'u cyfranogiad yn y gymuned, mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd bron pob disgybl yn datblygu'n dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ac yn ateb gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn llawn. Mae cynllunio bwriadus yn sicrhau amrediad da o brofiadau sy'n datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion yn llwyddiannus wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn ddigon heriol i ymestyn y disgyblion uwch eu gallu.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n drwyadl ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu yn y Gymraeg, Saesneg, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac yn sicrhau bod cydlyniad ym mhrofiad y disgyblion. Mae gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael eu gweithredu'n effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae'r amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi'r cwricwlwm ymhellach i fwyafrif o'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu amrediad o weithgareddau cyfoethog sy'n hybu'r Cwricwlwm Cymreig. Trwy ddethol testunau a themâu, a thrwy arddangosfeydd ac ymweliadau, mae'r ysgol yn hybu ymwybyddiaeth disgyblion o'u treftadaeth a'u hardal leol yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn dda. Mae'r cyngor eco yn gweithio'n effeithiol, ac wedi cyfrannu'n dda at leihau defnydd yr ysgol o drydan, ac at leihau defnydd papur drwy ddefnyddio negeseuon testun. Trwy astudio gwledydd amrywiol sy'n datblygu'n economaidd, megis Lesotho, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i hybu eu hymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth sydd ym mywydau dinasyddion ar draws y byd.

**Addysgu: Da**

Mae gan athrawon ac oedolion eraill berthynas dda gyda'r disgyblion a gwybodaeth bynciol berthnasol. Ar draws yr ysgol, mae cydweithio llwyddiannus rhwng yr athrawon a'r cymorthyddion dysgu yn rhoi cefnogaeth effeithiol i unigolion a grwpiau penodol.

Pan fo’r addysgu ar ei orau, mae’r athrawon yn rhannu nodau addysgol yn glir ac yn defnyddio adnoddau buddiol i gefnogi’r dysgu a’r addysgu. Mae holi effeithiol yn ennyn diddordeb y disgyblion a chaiff y disgyblion fwynhad amlwg yn y gwersi. Mae’r athrawon ar draws yr ysgol yn rheoli ymddygiad yn dda. Yn yr ychydig o wersi lle nad yw’r addysgu cystal, nid yw’r gweithgareddau bob amser wedi’u gwahaniaethu’n addas ac nid yw’r cynllunio tymor byr yn ddigon manwl i ymateb i’r ystod oed a gallu.

Mae athrawon yn modelu iaith yn dda, ond nid ydynt bob amser yn annog disgyblion ddigon i gyfathrebu yn Gymraeg mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau gwahanol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu’n gadarn drwy’r ysgol. Mae disgyblion ymhob dosbarth yn cael cyfleoedd cyson i asesu a gwella eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae adborth i ddisgyblion, ar lafar a thrwy farcio, yn dda. Mae’r sylwadau’n adeiladol ac yn nodi cryfderau yn ogystal â chrynhoi’r hyn sydd angen i’r disgyblion ei wneud i’w wella.

Mae trefniadau da ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae’r wybodaeth am gynnydd yn cael ei dadansoddi a’i defnyddio'n effeithiol i fonitro cynnydd a darparu cymorth ychwanegol i'r disgyblion yn ôl y galw.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys gwybodaeth glir am gynnydd pob plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn effeithiol. Mae ganddi bolisiau a gweithdrefnau priodol ar gyfer hyn ac ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r ysgol yn gymuned hapus lle teimla’r disgyblion yn ddogel. Mae cyfle da i ddisgyblion fynegi barn neu rannu gofidion.

Mae systemau effeithiol ar waith i wella presenoldeb ac mae hyn yn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar bresenoldeb y disgyblion dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd da o ystod eang o asiantaethau allanol i roi arweiniad a chymorth defnyddiol i staff, disgyblion a rhieni, pan fydd angen.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r systemau trylwyr sydd yn eu lle ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Caiff anghenion y disgyblion eu dynodi yn gynnar a'u cynnydd ei olrhain trwy asesiadau rheolaidd. Mae’r disgyblion yn derbyn cymorth da mewn grwpiau ymyrraeth ac yn y dosbarthiadau. Mae’r cynlluniau addysg unigol yn fanwl gyda thargedau ar gyfer gwelliant yn glir. Maent yn cael eu hadolygu’n dymhorol mewn ymgynghoriad â’r rhieni a’r disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cadarnhaol, lle caiff pawb eu parchu a’u cefnogi. Mae’r ymdeimlad cynhwysol yn meithrin unigolion cyfrifol a pharod i helpu ei gilydd ac eraill.

Mae'r ethos hwn yn seiliedig ar weithredu polisïau a gweithdrefnau sy'n parchu hawliau pob unigolyn o fewn yr ysgol. Sicrha'r ysgol ei bod yn cynnig yr un cyfleoedd a phrofiadau i'r holl ddisgyblion, beth bynnag fo'u cefndir cymdeithasol a'u gallu.

Mae'r ysgol yn delio'n effeithiol â'r achosion prin iawn o fwlio neu unrhyw fath arall o aflonyddu neu wahaniaethu. Mae polisi cydraddoldeb a chynllun gweithredu anabledd yr ysgol yn effeithiol o ran hyrwyddo cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Mae amrywiaeth cyfoethog o adnoddau yn yr ysgol sy'n cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu.

Mae ystod o ddosbarthiadau a chyfleusterau pwrpasol ar gyfer nifer y disgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd da o'r safle a chedwir yr adeilad a'r tir oddi amgylch mewn cyflwr da a thaclus. Mae'r ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn ddiogel. Fodd bynnag, nid oes mynediad rhwydd i'r ardal ar gyfer Blwyddyn 2, sydd yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i ddysgu y tu allan.

Mae arddangosfeydd o waith a llwyddiannau'r disgyblion yn amlwg ar draws yr ysgol ac maent yn cyfrannu tuag at greu amgylchedd deniadol sydd yn ysgogi'r disgyblion i ddysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
| --- | --- |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae ansawdd arweinyddiaeth y pennaeth yn dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar gyfeiriad strategol yr ysgol. Mae'r tîm rheoli a staff yr ysgol yn rhannu'r weledigaeth hon, ynghyd â'r llywodraethwyr, y rhieni a'r disgyblion. Mae staff yr ysgol yn deall eu rolau yn dda. Mae disgwyliadau uchel ohonynt, ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at gynnal a chodi safonau. Mae'r tîm rheoli a gweddill y staff yn annog ac yn rhoi gwerth ar waith tîm. Mae hyn yn nodwedd amlwg sy'n creu sylfaen gref wrth ymdrin â chodi safonau a darparu cwricwlwm eang ar draws yr ysgol.

Mae cyfrifoldebau penodol gan y staff i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu ac maent yn rhannu arferion da yn bwrpasol a llwyddiannus. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar broses wella'r ysgol ac yn arwain at gamau gweithredu clir i wella arfer.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus. Rhoddir sylw amlwg i fabwysiadu a rhoi ar waith egwyddorion a gweithdrefnau yn deillio o'r Fframwaith Llythrenedd a Rhifedd, ac i ddatblygu medrau dwyieithrwydd y disgyblion. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith yn greadigol iawn.

Mae'r llywodraethwyr yn ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn gydwybodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r ffordd y mae'r ysgol yn perfformio trwy drin data perfformiad yr ysgol yn effeithiol, gwrando ar aelodau'r staff ac ymweld â dosbarthiadau. Maent yn mynychu hyfforddiant ac yn herio'r ysgol yn gyson fel cyfeillion beirniadol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r broses hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn datblygu dealltwriaeth aelodau’r staff i gyd o gryfderau a gwendidau’r ysgol. Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl, wedi’i seilio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r dadansoddiad o ddata yn rhan annatod o'r broses. Cesglir tystiolaeth yn effeithiol trwy arsylwadau dosbarth, craffu ar waith disgyblion, a gwrando ar safbwyntiau disgyblion a rhieni.

Mae’r prif flaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio’n glir ar wella cyrhaeddiad grwpiau penodol o ddisgyblion. Fe geir cyswllt amlwg rhwng canfyddiadau yr adroddiad hunanarfarnu a’r blaenoriaethau. Mae’r cynllun yn cynnwys ystod briodol o gamau perthnasol ac yn nodi aelodau o staff sydd â chyfrifoldeb am eu cyflawni. Mae hefyd yn cynnwys meini prawf llwyddiant heriol ac o fewn terfynau amser penodol ar gyfer cwblhau'r tasgau. Mae’r ysgol yn monitro cynnydd yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol hanes cryf o roi gwelliannau ar waith. Mae’r camau a gymerwyd dros y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at welliannau amlwg mewn meysydd allweddol. Mae presenoldeb yn enghraifft dda o hyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag amrediad o bartneriaid strategol sydd yn cael effaith fuddiol ar les a chynnydd y disgyblion. Mae partneriaeth agos gyda’r rhieni. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu tuag at ystod o weithgareddau, gan gynnwys mentrau codi arian a chefnogi profiadau dysgu megis ymweliadau.

Mae’r bartneriaeth gref rhwng yr ysgol a’r cylch meithrin yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu’n gyflym yn y dosbarth meithrin. Mae’r ysgol hefyd yn cydweithio’n llwyddiannus gyda’r ysgol uwchradd ac mae trefniadau pontio effeithiol, sy’n cynnwys ymweliadau. Mae hyn yn sicrhau trosglwyddo esmwyth i’r disgyblion ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae’r ysgol yn elwa o gyswllt adeiladol gyda’r gymuned ac mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i gyfranogi mewn gweithgareddau cymunedol. Mae hyn yn cyfrannu’n effeithiol at adnabyddiaeth y disgyblion o’u hardal leol.

Mae’r bartneriaeth gydag ysgolion lleol yr ardal yn effeithiol. Yn ddiweddar, mae pennaeth yr ysgol wedi arwain ar sefydlu 'Triawdau Dysgu' o fewn y teulu o ysgolion lleol i edrych ar arfer addysgu da. Mae hyn wedi bod yn llwyddiant amlwg. Mae’r ysgol yn gweithio’n agos gydag ysgolion eraill y teulu i safoni a chymedroli gwaith disgyblion ac mae hyn yn sicrhau cysondeb a chywirdeb yn asesiadau’r ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol gyflenwad llawn o athrawon sydd â phrofiad a chymwysterau addas i addysgu pob agwedd ar y cwricwlwm. Mae’n defnyddio arbenigedd staff yn effeithiol ac yn gwneud defnydd da o’u doniau penodol. Enghraifft ardderchog o hyn yw’r modd bu i’r ysgol ddyrannu cyllid ychwanegol i hyfforddi un o’r cymorthyddion i

gysgodi cymhorthydd arall yn yr awdurdod lleol. Mae hyn wedi eu galluogi i arwain eraill yn yr ysgol ac i weithio'n hynod o effeithiol fel tîm gydag athrawon. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at wella safonau a lles disgyblion.

Mae pob aelod o'r staff yn cael cyfleoedd rheolaidd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, sydd wedi'i gysylltu'n amlwg â blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae eu cyfranogiad mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol yn effeithiol ac wedi arwain, er enghraifft, at wella dulliau cyflwyno meini prawf llwyddiant i blant blwyddyn 2. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu hyder y plant i asesu eu gwaith eu hunain.

Mae trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu yr athrawon yn ymateb i'r gofynion statudol.

Fe reolir adnoddau a'r adeilad yn ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion y disgyblion.

Mae'r pennaeth, y corff llywodraethol a'r is-bwyllgor cyllid yn cyfarfod yn rheolaidd, ac yn monitro'r gyllideb yn effeithiol. Ar sail hyn, a bod disgyblion yn cyflawni safonau da, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Wrth gymharu canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen yn 2013 ag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd nifer y disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig, (deilliant 5) mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion ac yn y 50% is mewn datblygiad mathemategol. Cyflawnodd pob plentyn y deilliant disgwyliedig mewn medrau personol a chymdeithasol a oedd yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion. Roedd perfformiad mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn 2012 hefyd yn y 25% uchaf, ac yn y 50% uwch mewn datblygiad mathemategol. Roedd perfformiad disgyblion ar ddeilliant 6 yn 2013 yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad mathemategol. Roedd perfformiad mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn 2012 hefyd yn y 25% uchaf, ac yn y 50% uwch mewn datblygiad mathemategol.

Yn 2013, roedd perfformiad y bechgyn ar ddeilliant 5 yn well na'r merched mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a mewn datblygiad mathemategol. Nid oedd gwahaniaeth mewn datblygiad personol a chymdeithasol. Yn 2012, ar wahân i iaith a llythrennedd roedd perfformiad y merched yn well mewn mathemateg a datblygiad personol a chymdeithasol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ar wahân i fedrau mathemategol, roedd perfformiad merched ar ddeilliant 6, yn well na'r bechgyn ym mhob maes dysgu.

Mae cyrhaeddiad disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn well na chyrhaeddiad eu cyfoedion ym mhob maes dysgu. Fodd bynnag, ar ddeilliant 6, nid yw disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â disgyblion eraill mewn datblygiad mathemategol, iaith, llythrennedd a chyfathrebu.

Wrth gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 2 yn 2013 ag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd nifer y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig, (lefel 4) yn gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion mewn Cymraeg ac yn y 25% isaf mewn Saesneg, yn y 50% uwch mewn mathemateg a 25% uchaf mewn gwyddoniaeth. Roedd perfformiad yr ysgol ychydig yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg. Mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol, roedd perfformiad gan mwyaf yn y 25% uwch mewn Cymraeg a Saesneg, ond yn y 50% isaf mewn gwyddoniaeth a mathemateg. Roedd y canran a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 5) yn y 25% uchaf mewn Saesneg, Cymraeg a gwyddoniaeth ac yn 50% uwch mewn mathemateg. Mae perfformiad ychydig yn is na ysgolion tebyg mewn Cymraeg a mathemateg ond yn uwch mewn Saesneg a gwyddoniaeth. Am y tair blynedd flaenorol ar wahân i Gymraeg a Saesneg yn 2011, roedd perfformiad yn y 50% is neu'r 25% isaf.

Yn 2013, roedd perfformiad merched yn well na'r bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch ym mhob pwnc. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a pherfformiad eu cyfoedion.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 59 | 59<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 54 | 49<br>91%<br>92% | 5<br>9%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 59 | 57<br>97%<br>96% | 2<br>3%<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 59 | 58<br>98%<br>97% | 1<br>2%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 59 | 58<br>98%<br>96% | 1<br>2%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 58 | 54<br>93%<br>96% | 4<br>7%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 59 | 58<br>98%<br>99% | 1<br>2%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 58 | 52<br>90%<br>98% | 6<br>10%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 59 | 48<br>81%<br>91% | 11<br>19%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 59 | 53<br>90%<br>95% | 6<br>10%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 58 | 50<br>86%<br>77% | 8<br>14%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 59 | 53<br>90%<br>84% | 6<br>10%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 28 | 14 | 9 | 4 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 50% | 32% | 14% | 4% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 28 | 19 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 28 | 20 | 7 | 0 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 71% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 28 | 12 | 11 | 3 | 2 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 43% | 39% | 11% | 7% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 28 | 16 | 9 | 0 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 57% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 28 | 14 | 8 | 6 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 50% | 29% | 21% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 28 | 15 | 11 | 2 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 54% | 39% | 7% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 27 | 12 | 8 | 5 | 2 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 44% | 30% | 19% | 7% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 27 | 15 | 8 | 3 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 56% | 30% | 11% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 28 | 16 | 12 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 57% | 43% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 28 | 19 | 8 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 68% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 28 | 14 | 8 | 4 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 29% | 14% | 4% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 28 | 14 | 8 | 2 | 4 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 29% | 7% | 14% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 28 | 16 | 6 | 4 | 2 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 57% | 21% | 14% | 7% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 28 | 13 | 9 | 4 | 1 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 46% | 32% | 14% | 4% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 27 | 17 | 7 | 1 | 1 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 63% | 26% | 4% | 4% | | |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 25 | 14 | 5 | 1 | 4 | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 56% | 20% | 4% | 16% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 28 | 19 | 7 | 1 | 1 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 68% | 25% | 4% | 4% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 28 | 14 | 10 | 1 | 0 | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 50% | 36% | 4% | 0% | | |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mervyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Huw Roberts | Arolygydd Lleyg |
| Geraint Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Meinir Roberts | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.